| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** |
| DYDDIAD | **26 Ionawr 2023** |
| TEITL | **Cyfrifon Terfynol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 a'r Archwiliad perthnasol** |
| PWRPAS | **Cyflwyno –**<br>• **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;**<br>• **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;**<br>• **Llythyr Cynrychiolaeth (Atodiad 1).** |
| ARGYMHELLIAD | **Ystyried a chymeradwyo'r wybodaeth cyn awdurdodi'r Cadeirydd i ardystio'r llythyr** |
| AWDUR | **Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid** |

---

## 1. CYFRIFON 2021/22

Yn dilyn yr argyfwng Covid bu i Lywodraeth Cymru ymestyn yr amserlen ar gyfer cwblhau y cyfrifon am y drydedd flwyddyn yn olynol. Er hynny, llwyddodd y Cyngor i gwblhau'r Datganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2021/22 a'i ryddhau i Archwilio Cymru ar 13 Mehefin 2022. Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2021/22 (amodol ar archwiliad) i'r Pwyllgor a Llywodraethu ac Archwilio ar 8 Medi 2022, pryd bu craffu priodol.

Bu oediad i'r broses o gwblhau'r archwiliad o gyfrifon Llywodraeth Leol ar lefel genedlaethol ar gyfer 2021/22 o ganlyniad i fater perthnasol i asedau isadeiladwaith oedd yn effeithio yr holl gynghorau, ond sydd bellach wedi ei ddatrys. Mae'r cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 26 Ionawr 2023, sydd o fewn yr amserlen statudol ddiwygiedig o 31 Ionawr 2023 eleni.

## 2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU AR RAN ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

Nodwyd yng nghyfarfod Medi fod y cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar eu prif ddarganfyddiadau.

## 3. DATGANIADAU ARIANNOL ÔL-ARCHWILIAD AM 2021/22

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (ôl-archwiliad) o'r Datganiad o'r Cyfrifon am 2021/22. Mae'r prif newidiadau ers y fersiwn cyn archwiliad wedi'u hamlinellu yn rhan 19 ac Atodiad 3 o adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru.

## 4. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried a chymeradwyo'r –**

- Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
- Datganiad o'r Cyfrifon 2021/22 (ôl-archwiliad)

## 5. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH

Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â'r Pennaeth Cyllid, ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth, yn electronig eto eleni (Atodiad 1 i adroddiad Archwilio Cymru) wedi i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r uchod.

## 6. TYSTYSGRIF YR ARCHWILYDD PENODEDIG

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru (Adrian Crompton) yn cyhoeddi'r tystysgrif ar y cyfrifon.